# Wythnos Entrepreneuriaeth Fyd-eang – Sesiynau a Gynlluniwyd Tachwedd 2021

## Dydd Llun 8fed Tachwedd 2021

- ### 10.00yb-11.30yb - Sut i ddechrau eich busnes eich hun

Dewch i gychwyn Wythnos Entrepreneuriaeth Fyd-eang gyda chipolwg ar sut i ddechrau busnes.

Ydych chi wedi bod yn ystyried dechrau busnes nawr neu yn y dyfodol? Efallai yr hoffech ddysgu a fyddai dechrau busnes yn syniad da neu ddarganfod sut i fynd ati. Yn ystod y sesiwn hon clywch gan berchennog busnes am ei daith i ddechrau busnes. Beth a aeth yn dda a beth na fyddai'n ei wneud eto. Bydd y sesiwn hon yn eich ysbrydoli ac yn eich galluogi i ystyried a ydy dechrau busnes yn iawn i ti a chael atebion i rai o'ch pynciau llosg.

Cliciwch yma i ymuno a'r sesiwn

- ### 12 hanner dydd - 1.30yp - Dechrau busnes tra ydych yn dal i astudio

Ydych chi'n fyfyriwr ac yn ystyried dechrau neu ydych chi eisoes wedi dechrau eich busnes eich hun? Mae'r sesiwn hon i chi.

Yn ystod y sesiwn hon byddwch yn cwrdd ac yn clywed gan dri pherchennog busnes a phob un wedi cychwyn ei fusnes ei hun wrth astudio yn y brifysgol. Byddant yn rhannu eu profiadau, da a drwg, o jyglo astudio â dechrau busnes. Mae pob un ohonynt ar wahanol bwynt ar y daith felly byddwch yn siŵr o ddarganfod pob math o awgrymiadau a syniadau i'ch helpu gyda'ch cynlluniau i ddechrau busnes tra ydych yn cwblhau'ch astudiaethau'ch hun.

Cliciwch yma i ymuno a'r sesiwn

- ### 2.30pm - 4.00pm  Does dim rhaid i drethi godi ofn

Os ydych chi'n cael eich troi yn erbyn dechrau busnes am nad ydych yn deall goblygiadau Treth ac ariannol busnes, ymunwch â ni ar y sesiwn hon i ddysgu pam nad oes angen i chi fod ag ofn. Caiff y sesiwn hon ei harwain gan berchennog busnes profiadol a bydd yn ceisio ateb cynifer o'ch cwestiynau ag y bo modd.

Cliciwch yma i ymuno a'r sesiwn

- ### 4.00pm-5.30pm - Bŵt-camp Marchnad Myfyrwyr Cymru – GWERTHWCH AR-LEIN!

**Hoffech chi ddysgu sut i werthu ar-lein? Ymunwch â ni am ddiwrnod 1 y bŵt-camp 3 diwrnod hwn a fydd yn eich helpu i ddechrau'ch taith e-fasnach.**

Bwciwch yma am y digwyddiad allanol hwn https://www.eventbrite.co.uk/e/wales-student-market-bootcamp-get-selling-online-tickets-171861752127

# Dydd Mawrth 9fed Tachwedd 2021

- ## 10.00yb - 11.30yb - Datblygu Ap ar gyfer eich Busnes

Os ydych yn ystyried datblygu Ap fel eich syniad busnes, ymunwch â ni am y sesiwn hwyl hon i ddysgu mwy gan berchennog busnes sy'n datblygu Apiau yn rhan o'r hyn sydd gan ei fusnes i'w gynnig.

Cliciwch yma i ymuno a'r sesiwn

- ## 12.30yp - 2.00yp - Sut i gael cymorth mentor ar gyfer eich busnes

Mae cael mentor i'ch cefnogi ar daith eich busnes yn ei gwneud yn fwy tebygol y byddwch yn llwyddo. Mae llawer o entrepreneuriaid mwyaf y byd yn priodoli llawer o'u llwyddiant i'r mentoriaid sydd wedi gweithio gyda nhw. Ond sut mae mynd ati i ddod o hyd i fentor? I ddysgu rhagor am beth mae mentor yn ei wneud, sut cewch gymorth gan fentoriaid ac unrhyw gwestiynau eraill a allai fod gennych, ymunwch â ni ar y sesiwn wych hon.

Cliciwch yma i ymuno a'r sesiwn

- ## 2.30yp – 4.00yp - Marchnata Digidol

Mae marchnata digidol bellach yn weithgaredd creiddiol i unrhyw berchennog busnes newydd. Os oes gennych ddiddordeb mewn defnyddio marchnata digidol i'ch hyrwyddo'ch hun neu'ch syniad busnes, dewch i'r sesiwn hon i ddysgu rhagor gan gwmni sy'n darparu'r gwasanaeth hwn ar gyfer ei gleientiaid.

Cliciwch yma i ymuno a'r sesiwn

- ## 4.00yp - 5.30yp - Bŵt-camp Marchnad Myfyrwyr Cymru – GWERTHWCH AR-LEIN!

**Hoffech chi ddysgu sut i werthu ar-lein? Ymunwch â ni am ddiwrnod 2 y bŵt-camp 3 diwrnod hwn a fydd yn eich helpu i ddechrau'ch taith e-fasnach.**

Bwciwch yma am y digwyddiad allanol hwn https://www.eventbrite.co.uk/e/wales-student-market-bootcamp-get-selling-online-tickets-171861752127

# Dydd Mercher 10fed Tachwedd 2021

- **10.00yb – 11.30yb - Mentrau Cymdeithasol**

Ydych chi wedi ystyried rhedeg menter gymdeithasol? Dewch i glywed gan Ben Reynolds o'r Urban Foundary. "Mae ein gwaith yn cael ei yrru gan elfen greadigol gref, a ddechreuodd yn y sector creadigol, gan ddarparu digwyddiadau cerddoriaeth fyw, orielau dros dro, prosiectau cymunedol a mentrau cymdeithasol. Ar yr un pryd, cawsom ein sefydlu ar sail disgyblaeth gadarn yn y gwyddorau cymdeithasol- ymchwil cymdeithasol, dylunio ac adfywio trefol, ac economeg gymdeithasol."

Cliciwch yma i ymuno a'r sesiwn

- **12 hanner dydd - 1.30yp - Mentrau Cymdeithasol**

Ydych chi wedi ystyried o ble y gallech gael cyllid i gychwyn eich Menter Gymdeithasol? Dewch i glywed gan UnLtd sy'n cynnig cyllid i'ch helpu i gychwyn neu fynd i gam nesaf eich taith. O £500 – £20,000. Ond maen nhw'n gwneud llawer mwy hefyd!

Cliciwch yma i ymuno a'r sesiwn

- **1.00yp - 2.30yp - Mentrau Cymdeithasol**

Ydych chi wedi ystyried rhedeg menter gymdeithasol? Dewch i glywed gan Harri Helvon-Hardy o FABRIC. Mae hwn yn sefydliad sydd wedi ennill gwobrau ac sy'n gwneud gwahaniaeth positif i bobl ifanc dros 16 oed sydd naill ai mewn gofal neu'n gadael gofal.

Cliciwch yma i ymuno a'r sesiwn

- **3.00yp - 4.30yp - Beth yw Menter Gymdeithasol**

Ydych chi wedi ystyried rhedeg menter gymdeithasol ond ddim yn gwybod ble i ddechrau? Dewch i wrando ar siaradwyr o Ganolfan Gydweithredol Cymru sy'n arbenigo mewn cynnig cymorth a chyngor i ddarpar entrepreneuriaid cymdeithasol i droi'u syniadau'n realiti.

Cliciwch yma i ymuno a'r sesiwn

- **4.00yp - 5.30yp - Bŵt-camp Marchnad Myfyrwyr Cymru – GWERTHWCH AR-LEIN!**

**Hoffech chi ddysgu sut i werthu ar-lein? Ymunwch â ni am ddiwrnod 3 y bŵt-camp 3 diwrnod hwn a fydd yn eich helpu i ddechrau'ch taith e-fasnach.**

Bwciwch yma am y digwyddiad allanol hwn https://www.eventbrite.co.uk/e/wales-student-market-bootcamp-get-selling-online-tickets-171861752127

# Dydd Iau 11eg Tachwedd 2021

- **10.00yb – 11.30yb - Sut i fod yn weithiwr llawrydd i'r rheini sydd yn y sector creadigol**

Ydy'ch gradd yn debygol o'ch arwain i fyd gweithwyr llawrydd? Ydy hyn yn eich poeni neu efallai eich bod yn gyffrous iawn wrth feddwl amdano, ond yn parhau i fod yn y tywyllwch ynghylch beth mae'n ei olygu neu sut bydd yn gweithio? Bydd y sesiwn hon yn ystyried gwaith llawrydd i'r rheini sy'n gweithio yn y sectorau creadigol ac yn tynnu ar brofiad gweithiwr llawrydd presennol. Dewch i ofyn eich holl gwestiynau am weithio'n llawrydd.

Cliciwch yma i ymuno a'r sesiwn

- **12 hanner dydd – 1.30yp - Marchnata Targed**

Yn dilyn ein sesiwn Marchnata Digidol, plymiwch i ddyfnderoedd dynodi a datblygu strategaeth effeithiol ar gyfer marchnata i'ch marchnad darged. Yn aml dyma'r elfen sydd ar goll mewn 99% o ymdrechion marchnata BBaChau.

Cliciwch yma i ymuno a'r sesiwn

- **1.00yp – 2.30yp - Sut i redeg a marchnata gweithgaredd busnes**

Ydy'ch syniad busnes yn y sector awyr agored, twristiaeth neu weithgareddau? Ymunwch â ni i glywed gan berchennog busnes sy'n cynnig gweithgareddau awyr agored gwych wrth iddi hi rannu ei hawgrymiadau â ni ynghylch sut i farchnata busnes o'r math hwn.

Clicwch yma i ymuno a'r sesiwn

- **6.00pm – 8.00pm - Cymysgu a Chynnig Syniadau**

Â diddordeb mewn gwaith llawrydd neu gychwyn busnes? Dewch i gwrdd â myfyrwyr ac entrepreneuriaid o'r un anian, meithrin cysylltiadau, rhwydweithio a datblygu sgiliau cynnig syniadau yn y sesiwn Cymysgu a Chynnig Syniadau eleni!

Mae'r digwyddiad ar-lein, anffurfiol hwn yn ymwneud â meithrin eich rhwydweithiau a datblygu sgiliau entrepreneuraidd. Cewch gyfle i rwydweithio a chymysgu ag entrepreneuriaid a myfyrwyr o'r un anian o bob cwr o Gymru. Gall y rheini sy'n dymuno hynny hefyd ddewis cynnig eu syniadau busnes ar gyfer adborth a gwobrau.

Wrth gofrestru, gofynnir i chi a ydych yn dymuno rhwydweithio, neu rwydweithio a chynnig syniadau. Byddwch yn cynnig syniadau dim ond os dymunwch hynny!

**I gofrestru am y digwyddiad hwn dilynwch y ddolen hon -** https://bit.ly/3B1dBg1

# Dydd Gwener 12fed Tachwedd 2021

- **9.30yb – 11.30yb - Sut i greu gwefan i’ch busnes**

Beth bynnag yw’ch syniad busnes mae’n debygol y bydd arnoch angen gwefan. Dewch i’r sesiwn hon i ddysgu rhagor am wefannau, sut i’w creu, eu defnyddio a chael pobl i ymweld â nhw. Dewch â’ch cwestiynau i’r sesiwn hon sy’n cael ei chynnal gan berchennog busnes a chrëwr i’r gwe profiadol iawn.

Cliciwch yma i ymuno a’r sesiwn

- **12 hanner dydd – 1.00yp - Sut i ddefnyddio’r Cyfryngau Cymdeithasol megis Instagram i farchnata eich busnes**

Dewch i ddysgu am yr awgrymiadau sydd eu hangen i drawsnewid y ffordd rydych yn defnyddio’r Cyfryngau Cymdeithasol o bostio’ch cynnyrch a’ch gwasanaethau i ddysgu sut i ryngweithio’n uniongyrchol â’ch cwsmeriaid a darganfod sut i ddefnyddio’r rhai mwyaf priodol i’ch cynulleidfa darged.

Cliciwch yma i ymuno a’r sesiwn

- **1.00yp – 2.00yp - Sut i ddefnyddio YouTube yn eich busnes**

Hoffech chi ddefnyddio YouTube yn eich syniad busnes? Ymunwch â ni am y sesiwn hwyl hon sy’n cael ei chynnal gan ddefnyddiwr YouTube profiadol sydd â bron iawn 10 mil o danysgrifwyr. Dysgwch sut i ddefnyddio YouTube i wneud arian, adeiladu busnes a phwy a ŵyr, efallai dod yn seren!

Cliciwch yma i ymuno a’r sesiwn